08/01/21

***Annwyl Riant / Warcheidwad / Ddisgybl,***

Gobeithiwn yn fawr eich bod i gyd yn ddiogel ac yn cadw'n iach. Mae'n parhau i fod yn amser heriol iawn i ni i gyd. Fel y gwyddoch, cyhoeddwyd heddiw bod ysgolion yng Nghymru yn parhau ar gau tan hanner tymor oni bai bod cyfraddau'r firws yn gostwng yn sylweddol.

Fel o'r blaen, efallai bod safle'r ysgol ar gau i'r mwyafrif o ddisgyblion, ond rydyn ni'n agored iawn i bob aelod o gymuned ein hysgol. Mae'r ffordd rydyn ni'n gweithredu wedi gorfod newid yn amlwg.

Pwyntiau allweddol:

- Gellir cysylltu â ni trwy ffonio'r ysgol yn ystod oriau ysgol arferol neu drwy e-bost trwy adran 'Cysylltwch â ni' ar ein gwefan. Byddwch yn derbyn ymateb yn brydlon.
- Mae'r staff addysgu yn parhau i fod yn hynod o brysur yn paratoi adnoddau a thasgau ar gyfer y wefan ddysgu gartref sy'n hynod o gynhwysfawr. Bob dydd, bydd athro eich plentyn wedi recordio cyflwyniadau esboniadol ar gyfer y tasgau llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhain yn fanwl ac yn debyg iawn i'r hyn a fyddai fel arfer yn digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Gellir edrych ar y rhain ar unrhyw adeg sy'n caniatáu hyblygrwydd o ran pryd mae'r gwaith yn cael ei wneud. Bydd darn o waith thematig i'w gwblhau hefyd.
- Mae gan y ddolen hon hefyd lawer o wybodaeth ynglŷn â chymorth defnyddiol i rieni / gwarcheidwaid. https://sites.google.com/hwbcymru.net/gwefan-cymorth/hafan
- Mae'r gwefannau dysgu cartref yn hawdd eu cyrraedd o'n prif wefan Ysgol:

  www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk



Cliciwch ar y Cyfnod Allweddol perthnasol i'ch plentyn ac yna dewiswch ei ddosbarth o'r ddewislen sy'n ymddangos.

Yn ogystal, bydd pob athro yn anfon neges trwy Schoop bob bore Llun gyda dolen uniongyrchol i'w gwefan dysgu gartref. Os oes gennych Ipad neu debyg, efallai yr hoffech chi lawr lwytho'r app Schoop (10319) i'r ddyfais honno fel y gallwch cael mynediad i'r gwaith yn syth wrth agor y ddolen.

- Fel rheol dim ond pen/pensil a phapur bydd angen i gwblhau'r tasgau llythrennedd, rhifedd a thematig a osodir ar gyfer ein disgyblion. Rhoddwyd llyfr gwaith cartref i bob plentyn ar ddechrau'r tymor. Efallai bod llawer o'r rhain yn llenwi nawr. Os nad oes gennych unrhyw beth tebyg yn y tŷ neu os ydych chi'n cael anawsterau cael gafael ag un, cysylltwch â ni.
- Cysylltwch os ydych chi'n dod ar draws unrhyw anawsterau.

Ein dymuniadau gorau i chi i gyd.

***Yn gywir***

***Miss Evans a holl staff Ysgol Gymraeg Cwmbrân.***

08/01/21

*Dear Parent / Guardian / Pupil,*

We hope that this finds everyone safe and well. It continues to be very challenging time for us all. As you will probably know, it was announced today that schools in Wales will remain closed until half-term unless virus rates fall significantly.

As before, the school site maybe closed to most pupils, but we are very much open to every member of our school community. The way we operate has just had to change.

Some key points:

- We can be contacted by phoning the school during normal school hours or by email via the 'Contact us' section of the website. You will receive a prompt response.
- The teaching staff continue to be extremely busy preparing resources and tasks for the very comprehensive home learning website. Each day, your child's teacher will have recorded explanatory introductions for the literacy and numeracy tasks. These are detailed and very similar to what would ordinarily happen in the classroom. These can be viewed at any time which allows for flexibility as to when the work is undertaken. There will also be a piece of thematic work to complete.
- This link also has many useful avenues of support for parents/guardians.
  https://sites.google.com/hwbcymru.net/gwefan-cymorth/hafan
- The home learning websites are easily accessible from our main School website:

  www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk



Simply click on the relevant Key Stage for your child and then choose their class from the menu which appears.

In addition, each teacher will send a message via Schoop every Monday morning with a direct link to their home learning website. If you have an Ipad or similar, you may wish to download the Schoop (10319) app to that device so that you can access the work directly upon opening the link.

- The literacy, numeracy and thematic tasks set for our pupils will usually just require a pen/pencil and paper to complete. Each child was issued with a homework book at the start of term. Many of these might be filling up now. If you do not have anything similar in the house or are having difficulties acquiring one, please contact us.
- Please do make contact if you are encountering any difficulties.

Our very best wishes to you all.

*Yours sincerely,*

*Miss Evans and all the staff at Ysgol Gymraeg Cwmbrân.*